Pump ymgais gafwyd yn y gystadleuaeth eleni, a phum cyfansoddiad gwahanol iawn i'w gilydd.

Casgliad o chwe chân gafwyd gan 'Carnguwch', rhai yn unawdau, rhai yn ddeuawdau, a rhai ar gyfer côr. Mae 'Carnguwch' yn llwyddo i drin sillafau'r geiriau yn dda ac yn deall sut i ddefnyddio'r lleisiau a'r offerynnau yn gywir. Caneuon ysgafn yw'r rhain mewn gwirionedd, ond yn anffodus mae gormod o ddibyniaeth ar gyfeiliant trawsacennog ac alawon sydd ychydig yn ailadroddus. Byddai'n dda cael mwy o gysylltiad rhwng y caneuon a theitl dros y cyfan i'w huno hefyd.

Darn ar gyfer ffliwt, clarinet yn Bb, telyn, a phedwarawd llinynnol yw *Y Tri Mochyn Bach* gan 'Tafwys', wedi ei rannu i dri symudiad: *Gwellt*, *Pren* a *Brics*. Mae'r cyfansoddwr yma yn gwybod sut i ysgrifennu ar gyfer yr offerynnau ac mae'r sgôr yn daclus, yn gywir ac wedi ei chyflwyno yn arbennig o dda. Mae pob symudiad â chymeriad gwahanol gyda digon o amrywiaeth yn y gwead a'r defnydd o'r offerynnau. Er fod y syniadau cerddorol yn dda, teimlaf fod angen mwy o ddatblygiad yn enwedig yn harmonïol. Ar adegau, teimlai fod y gerddoriaeth yn troi yn ei unfan ac eisiau symud ymlaen. Wedi dweud hynny, gyda gwaith, rwy'n gweld potensial yn y darn ac yn dy arddull, ac yn edrych ymlaen i glywed mwy o dy waith yn y dyfodol.

Darn cerddorfaol yw *IV* gan 'Y Rhes Flaen'. Mae'r cyfansoddwr yn amlwg â chryn brofiad mewn darllen sgorau cerddorfaol ac yn hyderus iawn yn y modd y mae'n ysgrifennu. Roedd yma ar adegau ysgrifennu aeddfed ynghŷd â rhannau celfydd iawn. Teimlaf fodd bynnag, fod angen gwell siap i'r darn fel cyfanwaith. Roedd y cyfansoddwr fel petae yn datblygu un rhan cyn symud ymlaen i ran hollol wahanol. Roedd hefyd gor-ddibyniaeth ar raddfeydd cromatig yn ogystal â gor-ddefnydd o'r offerynnau chwyth mewn octifau. Ond, rwyt ti ar y trywydd iawn, dal ati i fireinio dy grefft.

Cerdd symffonig i fand pres yw *Mab Mathrafal* gan 'Caledfwlch'. Mae pum adran i'r gwaith (*Ein Tir, Grey de Ruthyn, Dros Sycharth, Llosgi'r Castell* a *Galw am Gymru Rydd*) a phob un â chymeriad addas i'r rhan honno o'r stori. Beth oedd yn sefyll allan oedd gallu'r cyfansoddwr i symud yn ddi-drafferth rhwng yr adrannau o ran harmoni, cymeriad a gwead. Galluoga hyn i'r gerddoriaeth ddatblygu'n llyfn a rhoi siap da i'r darn cyfan. Mae'r cyfansoddwr yn amlwg yn gyfarwydd â cherddoriaeth band pres, sut i ddefnyddio'r offerynnau, y mudyddion a pha bryd i ddefnyddio'r offerynnau priodol. Yn y rhan ganol adroddir rhan o gywydd Iolo Goch. Mae'r defnydd o'r offerynnau yn addas yma, er mwyn gallu clywed y llais ond hefyd mae cyfalawon hyfryd yn gwneud defnydd da o'r flugelhorn a'r euphonium fel offerynnau unawdol. Gellir gwneud mwy o hyn! Yn anffodus, roedd rhai gwallau e.e. marciau deinameg diangen, ac un glissando trombôn amhosib ond ar y cyfan, roedd yr offeryniaeth yn gweithio yn dda.

Ymgais 'Y Giaffar' oedd *Caneuon Clodfawr*: *Pum Cân o Glwyd i Denor*, sy'n osodiad o eiriau I.D. Hooson, Gwilym R. Jones ac R. Williams Parry. Dyma gylch o ganeuon sy'n werth eu clywed. Mae'r alawon wedi eu cyfansoddi yn ystyrlon ac yn gweddu i ystyr a naws y geiriau. Mae'r casgliad hefyd yn gweithio fel cyfanwaith ac felly yn sicr yn gylch o ganeuon. Mae'r llais yn cael ei arddangos yn dda ond beth sy'n aros yn y cof yw nad yw'r cyfansoddwr wedi anghofio pwysigrwydd y piano, a'r berthynas rhyngddo â'r llais. Dyma gyfeiliant diddorol, addas, nad yw'n undonog nac yn ddi-ddychymyg ac mae'r llais a'r cyfeiliant yn cydweithio'n gelfydd iawn. Mae yma fân wallau cysodi, ond mân wallau ydynt yn unig.

Rhaid i ni gofio mai cyfansoddwyr ifanc yw'r rhain, sy'n dysgu, yn arbrofi ac yn darganfod eu llais a'u harddull cerddorol. Yn wir, mae pob cyfansoddwr yn parhau i wneud hyn beth bynnag ein hoedran. Daliwch ati i weithio ar eich crefft a dysgu mwy, mae yma yn sicr botensial yng nghyfansoddiadau pob un ohonoch.

Yn drydydd, mae 'Y Rhes Flaen'; yn ail, 'Caledfwlch'; ond 'Y Giaffar' sydd yn mynd a hi eleni am y caneuon i denor. Llongyfarchiadau mawr.